# Gwerthuso Superbox – Beth rydym wedi'i ddysgu

**Yn 2016, ymgymerodd Ysgol y Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant â gwerthusiad ansawdd o raglen Superbox.**

Dyma grynodeb byr o rai o'r prif ganfyddiadau.

### 1. Roedd plant yn mwynhau defnyddio copïau lliosog o lyfrau adeg Amser Stori Superbox

Cadarnhaodd yr adborth fod manteision gwirioneddol i'r dull Amser Stori Superbox o roi copi o'r llyfr i bob rhiant / gofalwr i ddarllen gyda'u plentyn tra bo arweinydd y grŵp yn llywio'r darllen ar y cyd. Yn bwysig, roedd rhieni / gofalwyr a phlant yn mwynhau'r dull hwn: 'Roedd y plant wedi dwlu o gael copi yr un ac roedden nhw'n caru dilyn y llwybr [Slow Snail]'.

### 2. Gellir cefnogi a gwella manteision bondio ac emosiynol rhannu llyfrau gan sesiynau Amser Stori Superbox

Awgrymodd y gwerthusiad y gellir cynyddu manteision darllen ar y cyd, o ran amser o ansawdd a dreuliwyd gyda'ch gilydd, cysylltu bod yn ddiogel â darllen ac adeiladu perthynas drwy rannu llyfr, drwy ddefnyddio sawl copi o'r un llyfr.

Yng ngeiriau un ymarferwr, roedd Amser Stori â sawl copi o'r llyfr yn golygu fod 'Agosatrwydd un ac un ar y cyd â diogelwch grŵp. Roedd Mam a'i phlentyn yn cwtsho gyda llyfr, ond ar yr un pryd cafwyd diogelwch rhywun arall yn rhedeg Amser Stori.'

### 3. Gall Amser Stori Superbox a defnyddio adnoddau Superbox gynyddu ymwybyddiaeth a hyder rhieni ynglŷn â defnyddio llyfrau gyda'u plant

'Mae Superbox y dangos nad oes angen bod ofn'.

Dywedodd rhiant arall fod 'Rhieni wedi bod yn hapus i gymryd rhan – maen nhw'n hoffi cael copi o'r llyfr i edrych arno ac i ddilyn y stori. Dywedodd sawl un eu bod bellach yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â darllen gyda'u plant gartref.' Yn ychwanegol, 'Mae rhieni fel pe baen nhw'n mwynhau natur gymdeithasol y sesiynau.

**Cyngor Superbox:** Atgoffwch rieni nad oes angen edrych ar bob gair wrth rannu llyfr – mae edrych ar y lluniau a'u trafod yn fuddiol hefyd.

### 4. Gall defnyddio syniadau Superbox gefnogi datblygiad holistig plentyn

Nododd rhieni yn y gwerthusiad fod sesiynau wedi cefnogi datblygu sgiliau iaith, cyfathrebu ac echddygol eu plant.

Yn ogystal, nododd ymarferwyr natur amlsynhwyraidd rhai o sesiynau Superbox a sut y gellir defnyddio'r llyfrau i gefnogi rhifedd, sgiliau cyfathrebu a datblygu geirfa. Nododd un ymarferwr hefyd sut yr oedd plant yn datblygu iaith atodol yn ymwneud â nôl llyfrau a'u rhoi i gadw, yn ogystal â sgiliau cymdeithasol a syniadau am rannu a chymryd eu tro.

**Cyngor Superbox:** Sicrhewch fod llyfrau Superbox o fewn cyrraedd plant yn y lleoliad – canfyddiad rhai ymarferwyr oedd bod plant yn dewis darllen y llyfrau hynny drostynt eu hunain, ac edrych arnynt yn annibynnol ar ôl iddynt gael eu darllen yn y grŵp.

### 5. Mae gweithgareddau'n ddefnyddiol wrth ddatblygu ymwneud â llyfrau

Defnyddiwyd adnoddau Superbox gan sawl ymarferwr fel rhan o sesiynau ar y cyd â gweithgareddau eraill, gan gynnwys tylino babi, dawnsio, canu hwiangerddi a chrefft.

Roedd gweithgareddau'n gwella'r profiadau o rannu llyfrau ac yn darparu 'mynediad' i lyfrau i rieni llai hyderus. Crynhowyd hyn gan un ymarferwr yn nhelerau pwysigrwydd 'Gwneud pethau ar y cyd. Roedd gweithgareddau crefft yn helpu i ddod â mwy i lyfrau na darllen geiriau'n unig. Rydym ni'n tueddu i adeiladu ar gynnwys y llyfrau, yn hytrach na darllen y cynnwys bob tro.'

Nodwyd elfen gymdeithasol y sesiynau yn ogystal: 'Roedd rhieni'n mwynhau dod at ei gilydd i wneud gweithgareddau'n seiliedig ar y llyfrau.'

### 6. Gall llyfrau dwyieithog Superbox gefnogi teuluoedd i ymwneud â'r Gymraeg

Gwnaeth sawl un a gymerodd rhan yn y Gwerthusiad sylwadau am safon yr adnoddau dwyieithog. Nododd ymarferwyr fod teuluoedd wedi mwynhau defnyddio'r llyfrau dwyieithog.

Cyngor Superbox: Cofiwch fod recordiadau sain o'r llyfrau Cymraeg ar wefan Dechrau Da – **www.bookstart.org.uk/about/wales/english/listen/**

### 7. Gall Superbox helpu i godi ymwybyddiaeth o Dechrau Da a darllen gartref

Bydd sawl teulu eisoes wedi derbyn eu copïau o lyfrau Superbox drwy gyfrwng eu pecynnau Dechrau Da. Gwnaeth ambell ymarferwr y cyswllt â'r pecynnau hyn er mwyn annog teuluoedd i ddarllen y llyfrau gartref. Nododd un ymarferwr fod 'Rheini'n gwneud sylwadau am safon hyfryd yr adnoddau a sut y gallent ail-greu'r syniadau gartref. Dywedodd rhai y bydden nhw'n ailedrych ar eu llyfrau gartref.'

**Cyngor Superbox:** Gwnewch y cyswllt i'r llyfrau allai fod gyda'r rhieni gartref – yn enwedig os ydynt wedi derbyn y llyfrau Superbox yn eu pecynnau Dechrau Da.

**Ac i gloi... Mwynhewch! Gwelodd y gwerthuswyr fod brwdfrydedd ymarferwyr o blaid y llyfrau'n cael ei drosglwyddo'n hawdd i rieni a phlant.**

